

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR-YNG-NGHINMEIRCH A GYNHALIWYD A'R NOS LUN 24AIN O CHWEFROR 2020 YN YSGOL BRO CINMEIRCH, LLANRHAEADR AM 7.30 O'R GLOCH.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Elfed Williams (Cadeirydd), Stan Williams, Ceri Davies, Philip Williams, Hywel Davies, Arwel Davies, Bari Evans a'r Clerc.

1: YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr Iwan Jones, Geraint Jones, Falmai Evans a'r Cynghorydd Sir Ddinbych Joe Welch.

2. DDATGAN DIDDORDEB.

- A. Cynghorydd Philip Williams - eitem 8A.
- B. Cynghorydd Elfed Williams - eitem 8D.
- C. Clerc – eitem 9.

3. TRAFODAETH GYDA HAMISH SENNETT O VALE WISP BROADBAND.

Croesawodd Hamish Sennett i'r cyfarfod. Derbyniwyd adroddiad estynedig oddi wrth Mr Sennett am ei gwmni a'r gwasanaeth band eang mae ei gwmni yn gallu darparu i'r ardal gyfan o fewn ffin Cyngor Cymuned Llanrhaeadr ynghyd a'r manylion technegol o'r gwasanaeth band eang. Cytunodd Mr Sennett adroddi'r wybodaeth ar bapur i'r Cyngor ei ystyried. Diolchwyd i Mr Sennett am fynychu'r cyfarfod.

4. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 27ain o Ionawr 2020 a'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

5. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

A. Adroddwyd Cyngor Sir Ddinbych maent wedi cwblhau'r gwaith a'r canlynol a chodwyd yn cyfarfod blaenorol y Cyngor:-

- 1. Mwd ar y A525 wrth y datblygiad tai newydd yn Llanrhaeadr.
- 2. Gwrych eisiau ei thorri wrth Hafod-y-Coed ym Mhrion.
- 3. Dwr glaw yn llifo ar y ffordd o'r mynediad newydd o'r car wrth Dŷ Isa' ym Mhrion.
- 4. Gyliau wedi eu tagu ar ffordd Prion i Beniel heibio'r Bwlch.
- 5. Arwydd ar goll ar y troad i'r ffordd Ysgol Pant Pastynog wrth Eglwys Prion.
- 6. Gyliau wedi eu tagu rhwng Tŷ Cerrig a Rhewl Valley ym Mheniel.
- 7. Tyllau yn y ffordd eisiau eu trwsio ar y ffordd heibio Tyddyn Isaf ym Mhrion.

Cytunwyd yr aelodau gyrru lluniau i'r Clerc o'r gwaith sydd ddim wedi eu gwneud fel tyst i'r Cyngor Sir Ddinbych.

B. Ymateb Pennaeth Ysgol Bro Cinmeirch i'r canlynol oedd mater Heddlu oedd datrys y broblem - "Penderfynwyd yr Aelodau i'r Clerc tynnu sylw'r Pennaeth Ysgol Bro Cinmeirch yn Llanrhaeadr fod yna rhai moduron yn tynnu allan yn rhy gyflym o'r Ysgol heb ildio i'r moduron ar y ffordd".

6. PARC CHWARAE CYMUNED LLANRHAEADR.

Derbyniwyd adroddiad manwl oddi wrth Glerc Cyd-reoli'r Adnoddau Cymunedol ynglŷn â'r defnydd o'r Parc Chwarae Cymuned Llanrhaeadr fel ymateb i'r llythyr a dderbyniwyd oddi wrth Mrs Glenys Williams. Penderfynwyd yr Aelodau i dderbyn yr adroddiad ac i'r Clerc hysbysu Mrs Williams i gysylltu â'r Pwyllgor Cyd-reoli'r Adnoddau Cymunedol yn uniongyrchol.

#### 7. CYLLID.

A. Datganiad Banc £16.085.50.

B. Rhoddwyd awdurdod i'r taliadau canlynol:-

1. Lwfans blynyddol y Cadeirydd £1,500.00.

2. Tal Aelodaeth Flynnyddol 2020/2021 Un Llais Cymru £153.00.

#### 8. CEISIADAU BLYNYDDOL AM GEFNOGAETH ARIAN Y CYNGOR ODDI WRTH FUDIADAU LLEOL.

Ar ôl trafodaeth penderfynwyd yr Aelodau i'r rhoddion blynyddol canlynol:-

A: Gynnal mynwentydd hen Eglwys Iago Sant, Pant Pastynog a mynwent Eglwys Dyfnog Sant £500.00

B. Ysgol Pant Pastynog £1,000.00.

C. Ysgol Bro Cinmeirch £1,000.00.

D. Cymdeithas Cadwraeth Llanrhaeadr Y C £750.00.

#### 9. CYFLOG Y CLERC AM Y BLYNYDDOEDD ARIANNOL 2020/2021 A 2021/2022.

Gadawodd y Clerc yr ystafell i'r Aelodau trafod yr eitem o dan sylw.

Penderfynwyd yr Aelodau am godiad cyflog i'r Clerc o 2% am y flwyddyn 2020/2021 ynghyd a'r flwyddyn 2021/2022.

#### 10. MATERION CYNLLUNIO.

A. Mae'r Arolygiaeth Gynllunio wedi gwrthod yr apêl i'r garafán fod a'r tir i'r de-ddwyrain o Fro Dawel, Saron.

B. Mae'r apelydd cais cynllunio canlynol wedi mynd i apêl at Yr Arolygiaeth Gynllunio ar ôl cael ei gwrthod gan Gyngor Sir Ddinbych:-

"Land at Ramsport UK Ltd (known as Apartment (Old Shed) Old Farm, Llanrhaeadr – Without planning permission, the material change of use of land through the residential use thereof."

C. Cais cynllunio 23/2020/0117 – adeiladu morlyn slyri a gwaith cysylltiedig yn Rossa Back, Prion – dim gwrthwynebiad.

#### 11. GOHEBIAETH.

A. Derbyniwyd cais am gefnogaeth arian oddi wrth "Gofal Dydd a Helpu'n Gilydd", Capel Annibynwyr Waengoleugoed, Waen, Llanelwy. Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc ofyn i'r mudiad os oes yna bobl o fewn Gymuned Llanrhaeadr yn defnyddio'r gwasanaeth.

B. Derbyniwyd nifer o adroddiadau er wybodaeth.

#### 12. MATERION CYNGOR SIR DDINBYCH.

Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc ysgrifennu at Gyngor Sir Ddinbych ynglŷn â'r canlynol:-

A: Tipio anghyfreithlon wrth y ford ar dir Bryn Morfydd yn Llanrhaeadr.

B. Tirlithriad ar y ffordd o'r tir Penbryllan, Llanrhaeadr.

C. Tyllau ar y ffordd heibio Rossa Fawr, Prion.

D. Dwr ar y ffordd yn llifo o gaeau Cae'r Mynydd, Saron.

E. Tyllau yn y ffordd a dŵr yn casglu ar y ffordd heibio Tyn-y-ffordd rhwng Prion a Peniel.

F. Tyllau yn y ffordd rhwng Tyddyn Isa' a Bryn Mulan, Prion.

G. Arwydd ffordd ar goll wrth gyffordd Pen-y-groes, Prion.

13. MATERION BRYN O DAN ADRAN100B(4) O'R DDEDDF Y LLYWODRAETH LEOL 1972.

A. Derbyniwyd adroddiad Pwyllgor Ardal ddiweddar o'r Siroedd Dinbych/Conwy Un Llais Cymru oddi wrth y Cynghorydd Philip Williams.

B. Cytunodd y Cynghorydd Bari Evans gael amcan bris am y gwaith sydd angen ar y ffens tu ôl i flwch post ym Mhentre' Llanrhaeadr.

14. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – Nos Lun 30ain o Fawrth 2020 yn Ysgol Pant Pastynog, Prion am 7.30 o'r gloch.